Cylchlythyr Archifdy Ceredigion Sulgwyn 2000

Croeso i Gylchlythyr y Sulgwyn; cylchlythyr y Pasg ddylai fod ond mae'r swyddfa yn fwyfwy prysur, ac weithiau y mae'n anodd cadw i fyny. Felly, gydag ymddiheuriadau a chyfarchion, ymlaen â ni!

Ers ein cylchlythyr diwethaf bu Archifdy Ceredigion drwy'r broses " **Gwerth Gorau**" a gynhelir ar hyn o bryd er mwyn gweld beth yw ansawdd darpariaeth llywodraeth leol drwy Gymru a Lloegr. Mae'r broses "Gwerth Gorau" yn cynnwys archwilio pob agwedd o'r gwasanaeth a ddarparir gan geisio penderfynu a ellid ei wneud yn well, yn fwy effeithlon ac am lai o arian - boed yn wasanaeth gwaredu sbwriel, ciniawau ysgol neu, yn yr achos hwn, y Gwasanaeth Archifau a Rheoli Cofnodion.
Ni fwynheuon ni'r broses rhyw lawer, gan ei bod yn cymryd llawer o amser, a gall fod yn anodd iawn edrych ar y gwasanaeth yn feirniadol pan ein bod yn argyhoeddedig ein bod yn gwneud ein gorau (!), ond roedd yn gyfle da i sefyll yn ôl ac edrych ar y gwasanaeth a ddarparir gennym. Byddem yn croesawi unrhyw sylwadau oddi wrthoch ynglŷn â sut y gellir newid neu wella'r gwasanaeth.

Cafwyd **llawer o bobl yn ymweld â'r swyddfa** – grŵp o fyfyrwyr o Goleg Ceredigion a oedd yn dechrau ar gwrs " Access", a'r grŵp "Manuscript Heritage" o'r Adran Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth, myfyriwr o gwrs Gweinyddiaeth Archifau ym Mangor, a merch ifanc (a'i mam!) sydd yn ystyried bod yn archifydd ar ôl gwneud arholiadau a phrifysgol, ac a oedd eisiau gwybod beth yn union oedd y swydd.
Roedd yn bleser gennym groesawi dau grŵp o ymwelwyr o Lyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Chwefror. Roeddent yn bobl a oedd yn gweithio gyda'r cyhoedd, ac a ddaeth i edrych ar yr Archifau, yr Amgueddfa a'r Llyfrgell Gyhoeddus er mwyn gweld yn union beth oedd gan y sefydliadau hynny i'w gynnig. Yr ydym yn ffodus ein bod yn cael ein cynnwys ar "dripiau" llyfrgell genedlaethol i fannau eraill – bu Glenys McBurnie yn ddiweddar yn ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol yng Nghaerdydd fel rhan o Hyfforddiant y Llyfrgell Genedlaethol.
Aeth digwyddiadau hyfforddi eraill, a gynhaliwyd yn yr achos hwn gan Gymdeithas yr Archifwyr, â Helen Palmer i Gaergrawnt (er mwyn dysgu dulliau newydd o Reolaeth Cadwraeth) ac i Bortsmouth, ar ddiwrnod "Bod yn barod ar gyfer Argyfwng". Bywiogwyd y diwrnod gan y cyfle i ddiffodd amrywiol fathau o dân gyda Brigâd Dân Swydd Hampshire. Pwysleisiwyd pwysigrwydd dod i adnabod eich brigâd dân lleol. Cymerodd Helen hyn yn llythrennol; daeth adref, gan roi'r simnai ar dân yn ddamweiniol ac erbyn saith o'r gloch yr un noson yr oedd yn ffrindiau mawr gyda"**Blue Watch" Aberystwyth** a fu'n garedig iawn yn rhwystro ei thŷ rhag llosgi i lawr.

Ym mis Chwefror aeth Helen â'r "capsiwl amser" a ddarganfuwyd wrth drawsnewid Capel Methodistiaid Wesleaidd Sant Paul, Aberystwyth i 'r Sant Paul newydd ac achosodd gryn ddiddordeb.

Bu'r Archifdy mewn cysylltiad â "Pathways Projects" y Mileniwm gyda Sefydliad y Merched a threuliodd Helen ddiwrnod pleserus iawn yn Nhafarn Llanina, Llanarth, gyda chynrychiolwyr o nifer o Sefydliadau'r Merched Ceredigion, yn siarad am amrywiaeth eang o brosiectau lleol yr ymgymerir â hwy.

Yn ystod mis Mai cawn gwmni Jim Brookshaw. Mae Jim ar leoliad yn yr archifdy cyn dechrau ar radd hanes yn Llanbedr Pont Steffan yr hydref nesaf, a *gobeithiwn* ei fod yn cael amser da, wrth iddo ddod yn gyfarwydd ag amrywiol bleserau bywyd yn yr Archifdy.

Mae ein **Mynediad i'r Cyhoedd** (cyfrifiadur gyda mynediad i'r rhyngrwyd ac e-bost) ar gael yn yr ystafell chwilio ar gyfer pobl a hoffai edrych ar y We Fyd-eang am fanylion o hanes lleol a theuluol. Derbyniom y cyfrifiadur hwn drwy haelioni Cymdeithas Hanes Teuluol Dyfed. Dewch i gael tro arno, neu dywedwch wrthom pa safleoedd diddorol ar y we y dylem eu hargymell i eraill. Peidiwch ag anghofio bod croeso i chi ar bob adeg i anfon ymholiadau ar e-bost atom ni i archives@ceredigion.gov.uk - croesawir ymholiadau teliffon ac ysgrifenedig yn yr un modd wrth gwrs.

Mae gennym **beiriannau microffilm newydd** sydd yn gwneud darllen y cyfrifiad a chofrestri plwyf yn broses llai poenus, ynghyd â **set gyflawn o gofrestri plwyf** sydd ar gael am Sir Aberteifi, a desg smart iawn sydd i fod gwneud y stafell chwilio yn fwy croesawgar. Dewch i weld beth yr ydych yn meddwl ohono!

Ers i Glenys McBurnie ysgrifennu'r erthygl yn y cylchlythyr hwn bu'n bleser gennym dderbyn argraffiad 1942 o'r ***Cambrian News***. Os hoffech wybod rhagor ynglŷn â digwyddiad anffodus yn ymwneud â chig Nadolig ar y farchnad ddu, mae adroddiad llawn ohono ynddo.

Yn olaf, llawer o ddiolch i Mr. Lovatt a Mr. & Mrs. Dockerty. Byddem yn croesawi cyfraniadau yn y dyfodol.

Detholiad o Eitemau a Dderbyniwyd yn Ddiweddar

Acc. 1166	ADX 445	Llyfr ysgrifennu Emily Lloyd 1871 (set o lythyron ei theulu a ysgrifennwyd gan ferch 10 oed o Lanbedr Pont Steffan)
Acc.1169		Cofnodion Cyngor Cymuned Llanllwchaearn 19eg a'r 20fed ganrif (heb eu sortio eto)
Acc. 1172		Llyfrau ysgol Sian Davies o Gwm Cou (1964-70) (enghreifftiau o waith ysgol o gyfnod diweddarach yn yr ugeinfed ganrif)
Acc. 1180		Defnydd Cymdeithas Cefnogwyr Dyffryn Rheidol

Acc. 1184 Cofrestr presenoldeb Ysgol Gynradd Brongest 1898 – 1987

Acc.1193 *Cambrian News* 1942

"During a visit to an old cemetery in Ontario, Canada, the following interesting and very true comments were printed on a Notice Board at the entrance" G.W. Lovatt

This is a Cemetery

Lives are commemorated – deaths are
recorded – families are united –
memories are made tangible – and love is
undisguised. This is a cemetery.

Communities accord respect, families
bestow reverence, historians seek
information and our heritage is thereby
enriched.

Testimonies of devotion, pride and
remembrance are carved into stone to pay
warm tribute to accomplishments and to
the life – not death – of a loved one.
The cemetery is a homeland for family
memorials that are a sustaining source
of comfort to the living.

A cemetery is a history of people – a
perpetual record of yesterday and a
sanctuary of peace and quiet today. A
cemetery exists because every life is worth
loving and remembering – always.

Anon.

Yn dilyn yr erthygl yn y cylchlythyr diweddaraf am ddaliad y llong Eliza o Abertiefi gan "American Privateers" , mae Mr a Mrs Dockerty o Lannon wedi cadarnhai fod yr hanes am y llong yn gywir. Llong ddeufast o 146 tynell oedd yr Eliza, y fwyf ym mherchnogaeth teulu Davies of Bridge House, Aberteifi, a'r capten oedd William Davies.

BOBI A'R BOM
Heddlu Ceredigion yn ystod amser rhyfel

Weithiau wrth helpu ymchwilwyr byddwn yn dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol iawn mewn llyfrau cofnodion ar y silffoedd agored yn yr ystafell chwilio, yn aml bydd ymchwilwyr yn tueddu i beidio edrych ar y rhain ond fe all fod yr wybodaeth y maent yn chwilio amdani i'w chael ynddynt. Mae gennym lyfrau cofnodion Addysg, llyfrau cofnodion Bwrdeistref Aberystwyth, Cyngor Sir Aberteifi a Chyngor Sir Dyfed. Hefyd mae gennym lyfrau cofnodion Cyd-bwyllgor Addysg Sefydlog Sir Aberteifi, ac mae ynddynt gyfoeth o wybodaeth am yr heddlu yn y Sir.
Bum yn pori mewn cyfrol yn ddiweddar am y cyfnod 1939 - 1942 a deuthum o hyd i bethau diddorol iawn.

Rwy'n siwr y byddai'r rhestrau sy'n nodi ranc, gwasanaeth ayb aelodau o heddlu Sir Aberteifi, 31 Rhagfyr 1939 ac y byddent yn ddefnyddiol iawn i ymchwilwyr. Mae'r isod yn rhestr o'r rhai a fu'n gwasanaethu hwyaf yn y Sir.

Ranc	Enw	Bl	Mis	Gorsaf
D.C.C.	E.J. Evans	26		Aberystwyth
Inspr	T.O.Price	25	5	Llambed
P.S.	D.T.Richards	37	3	Tregaron
P.S.	R.Davies	36	11	Aberaeron
P.S	D.S.Jenkins	24	9	Borth
A/P.S.	B.Lewis	19	2	Llandysul
P.C.	W.D.Lewis	27	3	Ceinewydd
P.C.	E.J.Evans-Vaughan	20	11	Tal-y-bont

J.J. Lloyd Willams, Capt, yw'r Prif Gwnstabl

Mae Adroddiad y Prif Gwnstabl ar gyfer pob chwarter yn cynnwys ystadegau gwerthfawr a gwybodaeth nad yw ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill.

ADRODDIAD Y PRIF GWNSTABL
Rhagfyr 1939.

HEDDWEISION O FENYWOD
Soniwyd mewn Cyfarfod o'r Cyngor Bwrdeistref yn Aberystwyth nad oedd angen gwasanaeth menywod yn yr heddlu. Yn hyn o beth hoffwn ddweud y bu 84 o gollfarnau yn erbyn ieuenctid yn ystod y pedwar mis diwethaf a dan yr amgylchiadau credaf y cytunwch nid yn unig fod arnom eisiau heddweision sy'n fenywod ond yn wir eu bod yn angenrheidiol.

CARDIGANSHIRE SPECIAL CONSTABULARY



Llandyssul Contingent, 1940

11 Ionawr 1940
Penderfynwyd ym marn y Pwyllgor bod angen cyflogi heddweision o fenywod yn y Sir tra pery'r rhyfel ac fe gymeradwyodd y Pwyllgor i'r Prif Gwnstabl gyflogi'r Heddweision o Fenywod a gyflogwyd ganddo yn ystod yr argyfwng.

30 Mehefin 1940
HEDDWEISION O FENYWOD
Mae troseddau gan ieuenctid, mae'n falch gennyf ddweud, wedi gostwng yn sylweddol, ond bu'r Heddweision o Fenywod yn ddefnyddiol tu hwnt o ran chwilio a rheoli estroniaid gelyniaethus benywaidd, a buasai'n amhosib cyflawni rhai o'r cyfarwyddiadau a gafwyd yng nghylchlythyrau'r Swyddfa Gartref hebddynt. Nid yn unig y mae'r W.P.S. wedi cynorthwyo'n sylweddol yn hyn o beth, ond bu hefyd yn anhepgor o ran holi rhai yr amheuir eu bod yn estroniaid, a bu ei gwybodaeth hi o'r Almaeneg yn ddefnyddiol iawn.

LLAN-NON
31 Mawrth 1940.
Ar 18 Chwefror bu rhaid i un o awyrennau'r RAF lanio yn Llan-non, ac fe gafodd ei gwarchod gan gwnstabliaid arbennig ar hyd y nos.

LLANRHYSTUD
Ar 20 Mawrth gollyngwyd tri bom ymarfer yng nghyffiniau'r ffordd ger Llanrhystud heb beri difrod. Mae'r mater yn cael ei archwilio gan Weinyddiaeth yr Awyr ac mae darnau o'r bom wedi eu hanfon atynt.

30 Medi 1940
CYRCHOEDD GAN AWYRENNAU'R GELYN
Er bod awyrennau'r gelyn yn dal i hedfan dros y Sir, yn y nos gan mwyaf, ni wnaed unrhyw ddifrod nag anafiadau, ond mae bomiau wedi eu gollwng fel y nodir isod:

1. Ar 16 Awst gollyngwyd tri o fomiau gyda ffrwydron ffyrnig o fewn ryw 100 llath o Fferm Pantcyrne, Y Gors.

2. Ar 16 Medi, gollyngwyd 14 o fomiau gyda ffrwydron ffyrnig ger y ffordd fawr o Aberystwyth i Fachynlleth, 5 ½ milltir i'r gogledd ddwyrain i Aberystwyth, ac un 1 ¼ milltir i'r gogledd i'r rhain.

Ar 25 Medi syrthiodd 5 o fomiau ffrwydron ffyrnig ym Mhant Gwyn, Llanarth, 2 ger Crosshands, Cross Roads, 2 ym Mhenrheol ac 1 yn Nantgwrdy, Mydroilyn. Ar yr un noson syrthiodd 10 o fomiau cyneuol yn Fferm Glandwr, Pont-sian, 3 yn Rhosgochganol 1 yn Nantgwrdy ac 1 ym Mherthlwyd, Mydroilyn. Syrthiodd un bom cyneuol gan ffrwydro ym mhlwy Llanfihangel-y-Creuddyn, a naw heb ffrwydro yn Fferm Blaencletwr, Mydroilyn. Yn yr achos diwethaf bu'n ffodus nad oedd y pinnau rholio wedi eu tynnu o'r bomiau cyneuol a syrthiodd o gwmpas ydlan fferm, achos fe fyddent wedi achosi cryn ddifrod pe baent wedi ffrwydro.

AWYREN YN GLANIO YN Y MÔR

Ar 1 Awst cafwyd gwybodaeth bod awyren wedi glanio yn y môr wyth milltir o Aberystwyth. Aethpwyd ati ar unwaith i lansio'r bad achub a fethodd y teithwyr yn anffodus, a oedd yn arnofio yn eu siacedi achub ar ôl i'r awyren suddo. Gyda chymorth awyren chwilio o Aberdaugleddau achubwyd dau o bobl gyda chwch pysgota, ond mae'n ddrwg gennyf ddweud yr oedd dau o'r teithwyr eraill a fu yn yr awyren yn farw pan godwyd nhw.

31 Rhagfyr 1940

GWEITHREDOEDD O DDEWRDER

Mae'n dda gennyf eich hysbysu fod y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid wedi rhoi Medal Efydd i'r Cwnstabl P.C. 11 T.P. Evans, o Adpar, am ei ddewrder a'i ddyngarwch yn achub ci o shafft dwfn ym Mhont-rhyd-y-groes ar 24 Awst, 1940.

Mae'r Gymdeithas Ddyngarol Frenhinol wedi rhoi Medal Efydd y Gymdeithas honno i'r Eilydd Rhyfel Glyn Jenkins, o Aberystwyth, am ei ddewrder hynod yn achub bywyd ar 13 Medi, 1940, ar ôl i ddynion yr awyrlu yn aflwyddiannus geisio achub dyn ifanc a oedd wedi mynd i drafferthion yn y môr ger Aberystwyth, fe nofiodd y swyddog yma allan mewn gwynt mawr ac fe ddaeth ag ef yn ei ôl yn ddiogel.

CYRFF WEDI EU GOLCHI I'R LAN

Cafodd corff, a gafodd ei enwi fel capten llong, ei olchi i'r lan yn Aber-arth ddiwedd mis Tachwedd. Yna golchwyd pedwar o gyrff eraill, y credir eu bod yn tarddu o'r un llong, i'r lan rhwng Aberaeron a'r Borth. Cafodd dau eu henwi a'u rhoi i'w perthnasau, ac fe gladdwyd y ddau gorff arall ym Mynwent Aberystwyth.

Mae'n terfynu gyda'r wybodaeth bod 86 o fomiau cyneuol ac 1 bom ffrwydron ffyrnig wedi syrthio ar 4 Ionawr, ger Llanwnnen ar dir agored. Gwnaeth ffrwydriad y bom ffrwydron ffyrnig beth difrod i ffenestri ffermdai.

Yn adroddiad y Prif Arolygydd ar gyfer Mawrth 1941 dywed fod cynnydd o 16%

yn ystadegau troseddau yn y chwarter diwethaf; roedd 52 o achosion. Mae'n priodoli hyn i'r cynnydd ym mhoblogaeth filwrol y Sir a'r cynnydd yn niferoedd y ffoaduriaid swyddogol ac answyddogol.

Mae'n bryderus iawn am y cwymp mewn moesoldeb ymhlith menywod a bechgyn ifanc rhwng 11 a 15 mlwydd oed, mae'n ystyried Ysgolion Gwarchod yn ffordd i atal hyn, yn ddiweddar deliwyd â thair o fenywod ifanc yn y modd hwn gan yr Ynadon lleol.

Bu dau achos o anudon yn ystod y cyfnod dan sylw, y deliwyd â nhw ym Mrawdlys Caerdydd, pan gafodd un o weithwyr y Cyngor 16 diwrnod o Lafur Caled ac fe ddedfrydwyd ffermwr o ardal Aberteifi i 12 mis o Lafur Caled ar dri chownt, y dedfrydau i gydredeg.

Dywed hefyd fod 1,250 o bobl, plant yn bennaf wedi eu symud i'r Sir yn swyddogol rhag y rhyfel.

GWEITHREDOEDD O DDEWRDER
Rwy'n falch i'ch hysbysu unwaith yn rhagor fod y Gymdeithas Ddyngarol Frenhinol wedi rhoi Medal Efydd y Gymdeithas ynghyd â sgrol i'r Cwnstabl P.C. 30 Jones Fe aeth i lawr y clogwyni ar raffen ac er gwaethaf y perygl mawr iddo ef ei hun, fe lwyddodd i'w hachub.

30 Mehefin 1941
TROSEDDAU AR GYNNYDD
Mae troseddau wedi cynyddu 72 y cant yn y chwarter hwn, ac mae hyn wedi ei briodoli eto i'r cynnydd yn y boblogaeth filwrol yn y Sir a'r rhai a symudwyd yma. O blith y 60 o droseddau a gyflawnwyd gan ieuenctid yn y chwarter hwn, cyflawnwyd 39 gan efaciwis a 21 gan blant lleol..... Priodolwyd y cynnydd yn nhroseddau gan ieuenctid i'r ffaith nad yw eu rhieni yma i'w rheoli a bod y tadau bant o'r cartref oherwydd y rhyfel.

30 Medi 1941
Dywed y Prif Gwnstabl fod y trysorau a storiwyd yn Nhrawscoed wedi eu symud oddi yno ar 16 Awst ac o ganlyniad fe ddychwelodd y chwe chwnstabl arfog a fu'n eu gwarchod i'w dyletswyddau arferol.....Beth, neu bwy, tybed oedd y trysorau hyn.

CYRCHOEDD GAN AWYRENNAU'R GELYN
Syrthiodd dau o fomiau tir ar barashiwts yng nghyffiniau Llangwyryfon, Sir Aberteifi, gan ddifrodi dau dŷ. Ni anafwyd neb.

Yn ystod y tri mis diwethaf cafodd nifer o ffrwydron mor eu golchi i'r lan rhwng Llannon ac aber Afon Dyfi. Cafodd rhai eu ffrwydro wrth iddynt ddynesu at y lan ac mae eraill naill ai wedi cael eu dwyn ymaith neu'u dinistrio gan Awdurdodau'r Llynges. Oherwydd y perygl ffrwydron o'r fath, cyhoeddodd Awdurdodau'r Llynges rybudd yn atal neb rhag mynd i bier a sinema Aberystwyth.

31 Rhagfyr 1941
DYRCHAFIAD

Ar ôl 12 mis o gyfnod prawf cafodd P.S. 17 W.J. Ishmael gadarnhau ei benodi'n Sarjant o 9 Tachwedd 1941 ymlaen.

CYRCHOEDD GAN AWYRENNAU'R GELYN
Yn ystod y chwarter syrthiodd bomiau yng nghyffiniau Llandygwydd, Aberteifi a Thal-y-bont. Yn y ddau achos cyntaf difrodwyd tri o dai ond ni chafodd neb ei anafu.
Mae nifer sylweddol o ffrwydron môr wedi eu golchi i'r lan ar arfordir Sir Aberteifi.

HEDDWEISION O FENYWOD
Un Sarjant a thair W.A.P.C yw'r nifer o heddwesion o fenywod sy'n patrolio'r bit, ac rwy'n falch i hysbysu'r Pwyllgor bod trefniadau wedi eu gwneud gyda Chomisiynydd yr Heddlu Metropolitan i anfon un o'r tair W.A.P.C. i uned yn Llundain er mwyn cael hyfforddiant uwch am fis.

31 Mawrth 1942
AWYREN WEDI EI DIFRODI
Mae'n ddrwg gennyf eich hysbysu bod bomar Lockheed Hudson wedi cwympo ger Brays Pool ar ffordd Ponterwyd - Aberystwyth ar 10 Chwefror 1942. Fe drawodd yr awyren ochr bryn ac fe laddwyd pawb a oedd ynddi. Pan gawsant y neges yn dweud bod awyren wedi cwympo yn y cylch fe aeth yr heddlu i'r lle digwyddodd y ddamwain ar unwaith, ond ar wahân i gasglu'r gweddillion, nid oedd modd gwneud dim ar gyfer y teithwyr. Cafwyd llythyr ffurfiol o ddiolch oddi wrth y swyddog sydd â gofal am yr uned o ble daeth yr awyren am y cymorth a gafwyd gan yr Heddlu y tro yma.

YMARFER TANIO
Mae'n rhaid imi eich hysbysu er gwybodaeth i'r Pwyllgor bod estyniad i'r Meysydd Tanio o Aber-porth wedi ei sefydlu rhwng Ynys-las a'r Borth; fe all yr ymarferion hyn fod yn beryglus i sifiliaid, ond fe wnaed pob ymdrech i rybuddio pobl i adael llonydd i bopeth a welant yn y cyffiniau. Gobeithir gwarchod rhag damweiniau trwy wneud hyn ac ar y cyd a'r Sefydliad Datblygu Taflegrau bwriedir anfon hysbysiad at bob deiliad tŷ am y mater. Y Fyddin fydd yn cyflenwi'r pamffledau hyn ac ni chant eu hanfon heb ganiatâd gan yr Uwch Arolygydd.

FFRWYDRON
Mae nifer y ffrwydron môr sy'n cael eu golchi i'r lan wedi gostwng ac mae'r Llynges wedi dileu'r gwaharddiad ar y Pier yn Aberystwyth, ac fe gaiff ailagor yn ystod y dydd ar yr amod y bydd rhywun yn gwylio, ac ar y ddealltwriaeth y caiff yr eiddo ei gau eto os bydd gwylwyr y glannau'n gweld rhagor o ffrwydron yn yr ardal.

Ionawr 15, 1942
[Cofnodion Trafodion yr Is-Bwyllgor a benodwyd gan y Cyd-Bwyllgor Sefydlog i archwilio cwyn a wnaed gan y Cyrnol. Syr George F. Roberts mewn Cyfarfod Chwarterol o'r Cyd-Bwyllgor Sefydlog, a gynhaliwyd ar Ionawr 15, 1942, ynglŷn â'r defnydd ar un o geir yr heddlu gan y Prif Gwnstabl at ddiben ac eithrio dibenion yr heddlu.]

1. Yn gefn i'w gwyn fe wnaeth, Syr George F Roberts y datganiad canlynol.

"Ar y 18fed o Ragfyr, 1941 fe'm hysbyswyd bod tacsi wedi ei archebu ar gyfer dydd Gwener 12 Rhagfyr, 1941 yn i fynd â rhywun o Rif 8, Maes Lowri i Westy'r Queen's i ddawns yno. Cyrhaeddodd y tacsi'r tŷ yn ôl y trefniant i bigo'r teithiwr lan, ond pan gyrhaeddodd dywedwyd wrtho bod y tacsi wedi canslo ac y byddai car yr heddlu'n mynd â'r parti i'r ddawns. Tra'r oedd gyrrwr y tacsi'n egluro nad oedd y tacsi wedi ei ganslo, fe gyrhaeddodd car yr heddlu Rif 8, Maes Lowri i gasglu'r teithiwr dan sylw, a'r Eilydd Rhyfel yr Heddlu Egryn Jones wrth y llyw. Erbyn y 18fed o Ragfyr, 1941 roedd y mater yn hysbys i bawb yn Aberystwyth ac fe achosodd gryn anniddigrwydd ymhlith y gyrwyr tacsis.

2. Gwnaeth y Capt. J. J. Lloyd Williams y datganiad isod:

Sir,

With reference to Sir George Fossett Roberts's statement regarding the use of a Police motor-car by myself for the purpose of attending a dance, I have the honour to report as follows:

In the early part of December, the R.A.F. and R.A. held a combined Inter-Service Dance at the Queen's Hotel, to which I and my wife were invited as official guests.

My wife was asked if she would chaperone the Senior Naval Officer's step-daughter, whose age is about 17, and a Miss Griffin, whose age is also about 17,as Captain Bidwell had been posted to Colwyn bay for duty in that town, and he and his wife were unable to accompany these young women. My wife said that she would do so, and I left that evening in my own car, with the intention of picking them up at their house in Laura Place.

Shortly after leaving the gate, my car broke down and, as I was late, I telephoned to Sergeant Davies and asked him to send me a police car, which was to be requisitioned and paid for.

I produce for the Committee the Requisition invoice for this car, which was passed to Mr. Greenwood, who, in due course, sent me a bill, which has been paid.

I would submit for consideration that co-operation between the Police and other Forces is improved by the attendance of the Chief Constable and his wife at Service functions, and that on such occasions it would not be unreasonable for a police car to be made use of without payment, but in view of the fact that two young women were involved in this instance, I paid the full county rate - not from Laura Place to the Queen's Hotel, but from my own house and return.

I would further submit that a more reasonable course for Sir George Fossett Roberts to adopt would have been to see me and ask for my explanation in this matter, rather than making a statement to the Standing Joint in open Committee without being fully conversant with the facts.

I am Sir

Your obedient Servant

J.J. Lloyd Williams

Chief Constable

Er bod y Pwyllgor yn fodlon fod y car heddlu wedi ei ddefnyddio mewn amgylchiadau arbennig y tro yma ystyrient nad oedd yn ddymunol i geir yr heddlu gael eu defnyddio at ddibenion preifat.

2 Gorffennaf 1942
HEDDLU'N CAEL EU RHYDDHAU I FYND I'R LLUOEDD ARFOG

Yn unol â'r cyfarwyddiadau a gafwyd oddi wrth y Swyddfa Gartref mae'r dynion isod yn cael eu rhyddhau ar gyfer y Lluoedd Arfog:

P.C. 8 B.A. Lloyd, Aberystwyth
W.R. 61 G.I.Jones, Aberystwyth
W.R. 87 E. M. Jones, Aberystwyth
W.R. 54 J.R.Evans, Aberystwyth
W.R. 83 S.G.Evans, Aberystwyth

Galwyd W.R 60 I.L Lewis i wasanaethu yn y Gwarchodlu Cymreig ym mis Mai 1942. Bydd hyn yn gostwng niferoedd yr heddlu i 40 o Swyddogion Rheolaidd a 37 o Eilyddion Rhyfel. Bellach caiff yr Eilyddion Rhyfel eu trosglwyddo o Bwll Canolog ar orchymyn y Swyddfa Gartref pa bryd bynnag y byddant ar gael. Caiff y trosglwyddiadau eu gwneud yn otomatig gan y Weinyddiaeth Lafur.

Yn ogystal â'r uchod mae tri o Swyddogion Rheolaidd wedi gofyn am ganiatâd i wirfoddoli ar gyfer y Lluoedd Arfog, mae eu ceisiadau wrthi'n cael eu hystyried gan y Swyddfa Gartref a bydd rhaid cael awdurdod ganddyn nhw i'w rhyddhau.

GWEITHREDOEDD O DDEWRDER
Ar 16 Mai, 1942 roedd cwch sy'n perthyn i Goleg y Brifysgol mewn trafferthion ac fe drodd drosodd yn y Bae ger Aberystwyth. Aeth y Gwyliwr y Glannau Brown, a P.C. 8 B.A. Lloyd, i'r fan lle digwyddodd y ddamwain mewn cwch bach a llwyddwyd i achub tri o'r cychwyr, ac am wneud hynny mae'r Cwnstabl wedi ei gymeradwyo gan Sefydliad Brenhinol y Badau Achub.

CYMORTH I'R SWYDDOG TROSEDDAU BWYD
Mae achos eithriadol lle bu'r Heddlu o gymorth mawr yn helpu Swyddog y Weinyddiaeth Fwyd i atal troseddau'n ymwneud â bwyd.

Ar 24 Rhagfyr, 1941 daliodd geir yr Heddlu lori sy'n perthyn i Mr Tom Tweed ar ffordd Llanrhystud, ac roedd ynddi gyfran sylweddol o gig. Erlynodd y Weinyddiaeth Mr Tweed ym Manceinion, lle cafodd ddirwyon o £2,000 a £50; hefyd fe'i dedfrydwyd i dair blynedd o benyd-wasanaeth a thri mis o lafur caled, y ddwy ddedfryd i gydredeg. Hefyd gorchmynnwyd Tweed i dalu costau llawn yr erlyniad.

Faint o bobl aeth heb gig eidion dros y Nadolig tybed?

31 Rhagfyr 1942

BODDI

Mae'n ddrwg gennyf eich hysbysu y bu i bump o filwyr foddi yn Aberystwyth ar 14 Rhagfyr. Fel hyn y bu yn gryno: Roedd hyfforddwr wrthi'n hyfforddi pymtheg o recriwts ac fe benderfynodd fynd â nhw heibio i'r grwyn sydd o dan ben gogleddol y Promenâd. Wrth wneud hyn daeth ton enfawr ac ysgubo'r mwyafrif ohonynt i'r môr a bu i bump ohonynt foddi.

PIER ABERYSTWYTH

Oherwydd perygl ffrwydron yn y môr, y bu i un ohonynt ffrwydro ger y Pier ar 15 Hydref, gwaharddwyd sifilwyr rhag mynd i'r adeilad.

31 Mawrth 1943

GWEITHREDOEDD O DDEWRDER

Rhoddwyd medalau efydd i'r Ditectif Sarjant K.G. Williams, y Ditectif Gwnstabl S.G.S. Chapman, P.C.41 Emrys Davies, a Mr Norman Jones am eu dewrder yn achub milwyr a olchwyd i'r môr yn Aberystwyth ar 14 Rhagfyr,1942.

Cafodd y Ditectif Cwnstabl S.G.S. Chapman ei gymeradwyo gan y Prif Gwnstabl ar 24 Mawrth 1943 am ei ddewrder yn achub menyw a oedd wedi ei dal gan y llanw ar waelod Craig Glais. Dringodd y Ditectif Cwnstabl S.G.S. Chapman i lawr rhan beryglus iawn o'r clogwyn i'w hachub.

Mae'r holl wybodaeth yma a gafwyd o un gyfrol yn unig yn rhoi darlun inni o fywyd yn Sir Aberteifi yn ystod y rhyfel, ychydig yn llai tawel na'r hyn y byddem wedi ei feddwl efallai. Credaf y gallai llyfrau cofnodion 1895 (Cyd-Bwyllgor Sefydlog) - 1981 (Awdurdod Heddlu Dyfed Powys) fy nghadw i'n brysur am amser maith.

Glenys McBurnie



"Our local family tree expert is very thorough!"

Mae'r syniadau uchod yn mynegi barn yr awduron, nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Ceredigion
© Archifdy Ceredigion Archives 2000